Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2025




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2025

**Awdur:**
Francesca Howorth

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a gyflwynwyd i'r Senedd ar 31 Mawrth 2025.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ........ **1**

Trosolwg ........ 1

Sut i ddefnyddio'r Crynodeb hwn o'r Bil ........ 3

**2. Cipolwg ar y Bil** ........ **3**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau** ........ **4**

Rhan 1 - Cysyniadau allweddol ac amcanion cyffredinol ........ 4

Cysyniadau allweddol ........ 4

Amcanion ........ 4

Rhan 2 – Swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau lleol ........ 5

Dyletswyddau craidd Gweinidogion Cymru ........ 5

Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ........ 5

Contractau gwasanaeth bysiau lleol ........ 6

Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol ........ 6

Gwasanaethau bysiau lleol a ddarperir gan Weinidogion Cymru ........ 7

Dibynnu ar wasanaethau penodol ........ 7

Gwasanaethau trawsffiniol ........ 8

Gofynion adrodd ........ 8

Rhan 3 - Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol ........ 8

Rhan 4 – Gwybodaeth a data ........ 9

Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion arfer swyddogaethau penodol ........ 9

Gwybodaeth i'w rhoi i'r cyhoedd ........ 9

Braint gyfreithiol ........ 10

Gorfodi ........ 10

Rhan 5 - Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol ........ 10

Rhan 6 - Darpariaeth amrywiol a chyffredinol ........ 11

Trosglwyddo ymgymeriadau ........ 11

Deddf Trafnidiaeth 1985: dileu gofynion sy'n ymwneud â chofrestru ........ 11

Pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu ........ 11

Cyffredinol ........ 12

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)** i'r Senedd ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r sector bysiau ym Mhrydain Fawr, y tu allan i Lundain, wedi'i ddadreoleiddio ers 1986. O dan ***Ddeddf Trafnidiaeth 1985***, mae'r gweithredwyr yn gyfrifol am gynllunio'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau, y tocynnau a'r prisiau teithio ar gyfer bysiau. Mae gan awdurdodau lleol, sy'n bennaf gyfrifol am gynllunio gwasanaethau bysiau, ddyletswydd i sicrhau rhwydwaith effeithiol, ond dim ond pwerau cyfyngedig sydd ganddynt i lenwi bylchau yn y farchnad. Wrth gaffael gwasanaethau "cymdeithasol angenrheidiol", ni allant roi croes-gymorthdaliadau o lwybrau proffidiol.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** (y Memorandwm) yn nodi bod y Bil:

> … yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau bysiau lleol fel rhan o broses ddiwygio ehangach "un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn" ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Bydd y Bil yn ail-reoleiddio'r sector yn effeithiol, ac mae'r Memorandwm yn nodi'r bwriad mai masnachfreinio fydd y prif fecanwaith ar gyfer darparu gwasanaethau".

Mae Llywodraeth Cymru a **Trafnidiaeth Cymru** (TrC) wedi amlinellu eu dull o fasnachfreinio yn **Diwygio'r bysiau yng Nghymru: ein map ffordd i fasnachfreinio**. Mae hyn yn cynnig **model contractio cost gros**, a daeth refeniw tocynnau i law Gweinidogion Cymru a thalodd gweithredwyr ffi gyda chymelliadau ariannol.

### Trosolwg

Mae'r Bil:

- Yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi'r gwasanaethau bysiau lleol sy'n ofynnol at ddiben darparu trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru sy'n nodi manylion allweddol y gwasanaethau hynny, a chyhoeddi'r cynllun hwnnw. Mae'r Bil yn ei gwneud yn glir bod rhaid i Weinidogion Cymru geisio barn awdurdodau lleol, a rhoi sylw i **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol wrth ddatblygu'r Cynllun. Mae'n nodi pa gyrff y mae rhaid ymgynghori â nhw ar y drafft.
- Yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau y darperir y gwasanaethau

hyn, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, drwy gontractau gwasanaeth bysiau lleol (h.y. masnachfreinio), darpariaeth uniongyrchol, trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol, neu drwy ddibynnu ar wasanaethau penodol eraill a bennir yn y Bil (gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau teithio gan ddysgwyr sy'n cludo teithwyr am dâl).

- Yn dileu cyfyngiadau ar allu awdurdodau lleol i greu cwmnïau bysiau cyngor newydd.
- Yn gwahardd darparu gwasanaethau bysiau lleol ac eithrio pan fo Gweinidogion Cymru yn sicrhau'r gwasanaethau hynny fel y disgrifir uchod, neu a ddarperir gan weithredwr arall o dan drwydded, neu o fewn rhai eithriadau cyfyngedig a bennir yn y Bil. Mae hefyd yn galluogi i sancsiynau gael eu gosod pan fo gwasanaethau yn cael eu gweithredu yn groes i'r cyfyngiad hwn.
- Yn gwneud darpariaeth ar gyfer casglu data a rhannu gwybodaeth, gan sicrhau bod y ddau ar gael i'r cyhoedd a hwyluso gwaith Gweinidogion Cymru o gyflawni eu swyddogaethau o dan y Bil.
- Yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud i gymhwyso ***Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006*** ("TUPE") a darpariaethau penodol o ***Ddeddf Pensiynau 2004***. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen tebygol i staff drosglwyddo rhwng gweithredwyr bysiau wrth i gontractau symud i wahanol ddarparwyr.

Er nad yw TrC yn cael ei grybwyll yn benodol yn y Bil, mae'n amlwg bod ganddo'r rôl ganolog yn arfer y rhan fwyaf o swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Nodir yn y Memorandwm:

> Bydd gwaith datblygu'r Cynllun a gweithredu contractau gwasanaeth bysiau lleol, trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol a darparu gwasanaethau yn uniongyrchol yn cael eu gwneud gan TrC ar ran Gweinidogion Cymru mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae'r Bil yn dilyn **ymgynghoriad ar Bapur Gwyn 2022**, yr oedd yr ymatebion iddo **yn gefnogol yn gyffredinol**.

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn ddarostyngedig i **broses ddeddfwriaethol y Senedd** ac mae wedi cael ei gyfeirio at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Mae'r Pwyllgor wrthi'n **ymgynghori ar y Bil**, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar. Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn trafod y Bil.

### Sut i ddefnyddio'r Crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w ddefnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion. Yn yr adrannau crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. adran 1) yn rhoi linc i'r adran berthnasol o'r Bil. Mae lincs hefyd i wybodaeth berthnasol arall.

## 2. Cipolwg ar y Bil

Mae 44 o adrannau yn y Bil, wedi'u trefnu'n chwe rhan:

- **Rhan 1** – Cysyniadau allweddol ac amcanion cyffredinol.
- **Rhan 2**– Swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau lleol.
- **Rhan 3** – Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol.
- **Rhan 4** – Gwybodaeth a data.
- **Rhan 5** – Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol.
- **Rhan 6** – Amrywiol a chyffredinol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys tabl sy'n nodi pwerau Llywodraeth Cymru o dan y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth a'r cyfiawnhad dros bwerau o'r fath.

Mae hefyd yn cynnwys **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** sy'n nodi costau a manteision y cynigion yn y Bil.

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 - Cysyniadau allweddol ac amcanion cyffredinol

### Cysyniadau allweddol

Mae **adran 1** yn diffinio "gwasanaeth bysiau lleol" fel gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, am daliadau teithio ar wahân, gan ddefnyddio Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus sydd ag un neu ragor o fannau esgyn / disgyn, pob un yn llai na 15 milltir oddi wrth ei gilydd (wedi'i fesur mewn llinell syth). Rhaid i un neu ragor o fannau esgyn neu ddisgyn fod yng Nghymru. Gwasanaethau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf pellter yw "gwasanaethau anghymwys". Pan fo rhan yn bodloni'r meini prawf, mae'r rhan honno yn cael ei thrin fel gwasanaeth bysiau lleol. Mae rhai mathau o wasanaethau wedi'u heithrio'n benodol.

Mae'r Memorandwm yn esbonio bod y diffiniad o wasanaethau bysiau lleol yn debyg i'r diffiniad presennol yn **adran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985**. O ran "gwasanaethau anghymwys", nodir yn y **Nodiadau Esboniadol** (y 'Nodiadau'):

> … ni fydd angen i Weinidogion Cymru, wrth benderfynu ar y gwasanaethau bysiau lleol y maent yn ystyried eu bod yn ofynnol at ddiben sicrhau trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd yng Nghymru o dan adran 5(1)(a), ystyried a oes angen rhannau pellter byr o wasanaethau anghymwys, h.y. a oes angen i wasanaeth pellter hir, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel gwasanaeth pellter hir, gynnwys arosfannau pellter byr).

Mae **adran 2** yn diffinio "man esgyn" a "man disgyn".

Mae **adran 3** yn diffinio "gwasanaeth bysiau lleol hyblyg" fel un sydd mor hyblyg wrth weithredu nad yw'n ymarferol nodi ei lwybr yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru. Diffinnir "gwasanaeth bysiau lleol safonol" fel un nad yw'n hyblyg.

Mae'r Memorandwm yn disgrifio'r ddau fath o wasanaeth a ddiffinnir yn adran 3 fel "gwasanaethau safonol, sef y gwasanaethau mwy traddodiadol gyda llwybrau a mannau stopio penodol", a "gwasanaethau sy'n ymateb i'r galw, nad oes ganddynt lwybrau neu fannau stopio penodol" ond yn hytrach "yn gweithredu o fewn ardaloedd daearyddol penodol". Mae'r rhain yn arbennig o fanteisiol mewn ardaloedd gwledig.

### Amcanion

Mae **adran 4** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r chwe amcan

a restrir yn y Bil.

Mae'r rhain yn cynnwys: "hybu" defnyddio gwasanaethau bysiau lleol; "gwella'n barhaus" eu dibynadwyedd, eu diogelwch, eu fforddiadwyedd a'u hygyrchedd; "gweithio tuag at gynyddu argaeledd" gwasanaethau; "gweithio tuag at" gyflawni system drafnidiaeth integredig; "hwyluso" siwrneiau gan fwy nag un gwasanaeth bysiau lleol; a "lleihau" allyriadau nwy tŷ gwydr a gwastraff o drafnidiaeth ffyrdd.

## Rhan 2 – Swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau bysiau lleol

### Dyletswyddau craidd Gweinidogion Cymru

Mae **adran 5** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar y gwasanaethau bysiau lleol y maent yn ystyried eu bod yn ofynnol. Rhaid iddynt gyhoeddi eu "manylion allweddol" mewn Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ('y Cynllun'), a sicrhau eu bod yn cael eu darparu "i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol" drwy gontract, trwydded, yn uniongyrchol o dan adran 17 neu drwy wasanaethau o fath a ddiffinnir yn adran 18.

Y "manylion allweddol" y mae rhaid eu nodi yn y Cynllun yw'r llwybr a'r prif arosfannau yn achos gwasanaeth safonol, a'r ardal ddaearyddol ac unrhyw rannau neu arosfannau sefydlog yn achos gwasanaeth hyblyg.

### Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

Mae **adran 6** yn mynd i'r afael â'r broses ar gyfer llunio, cyhoeddi a gosod y Cynllun. Rhaid i Weinidogion Cymru geisio barn awdurdodau lleol, a rhoi sylw i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol wrth lunio'r Cynllun drafft. Mae adran 6 yn diffinio â phwy y mae rhaid ymgynghori wedyn cyn ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd.

Mae **adran 7** yn ei gwneud yn ofynnol adolygu'n barhaus a diwygio'r Cynllun pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n ofynnol. Cânt hefyd ei ddiwygio pan fônt yn ystyried bod hynny'n briodol. Rhaid iddynt roi sylw i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, a chyhoeddi'r cynllun diwygiedig. Rhaid gosod y Cynllun diwygiedig o fewn 13 mis i'r dyddiad y cafodd ei osod ddiwethaf, ynghyd â datganiad sy'n manylu ar sut mae'n wahanol.

Mae **adran 8** yn nodi sut y mae rhaid i Weinidogion Cymru ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac ymgyngoreion ar gynllun drafft diwygiedig mewn ardaloedd y

mae'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio arnynt.

O ran adrannau 7 ac 8 gyda'i gilydd, mae'r Memorandwm yn amlygu, er bod rhaid adolygu'r cynllun yn barhaus, mai dim ond ar ddiwygiadau drafft y mae rhaid ymgynghori a hynny:

- pan fo'r newidiadau arfaethedig i gael effaith am fwy na 14 o ddiwrnodau (a7(3));
- pan na fo'r diwygiadau yn cael eu hystyried yn rhai "bychan" (a8(1)(a)); a
- pan fo'n rhesymol ymarferol ymgynghori (a8(1)(b)).

## Contractau gwasanaeth bysiau lleol

Mae **adran 9** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymrwymo i 'gontractau gwasanaeth bysiau lleol' wrth gyflawni eu dyletswydd i sicrhau gwasanaethau bysiau lleol. Caniateir ymrwymo i gontract â deiliad trwydded bysiau cymunedol neu ddeiliad trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae **adran 10** yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r telerau a gynhwysir mewn contractau gwasanaeth bysiau lleol mewn rheoliadau, ac yn rhoi enghreifftiau o'r materion y gellid eu cynnwys. Caiff rheoliadau nodi ffurf safonol ar gyfer telerau i'w cynnwys, a rhagnodi amgylchiadau pan fo'r ffurf hon yn cael ei defnyddio.

Mae "contractau gwasanaeth bysiau lleol" yn wasanaethau masnachfraint i bob pwrpas. Mae'r Nodiadau yn nodi y bydd yr ymarferion caffael yn cael eu cynnal "yn unol â deddfwriaeth gaffael". O ran adran 10, nodir yn y Nodiadau y bydd rhai telerau yn cael eu cynnwys ym mhob contract, ond y "bydd hefyd wahaniaethau rhwng gwahanol fathau o gontractau" er mwyn cydnabod "pa mor gymhleth yw daearyddiaeth Cymru a pha mor amrywiol yw'r farchnad gweithredwyr".

## Trwyddedau gwasanaeth bysiau lleol

Mae **adran 11** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi trwyddedau (ac amodau ynghlwm wrthynt neu beidio) i ddeiliaid trwydded bysiau cymunedol neu ddeiliaid trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau bysiau lleol. Diben y rhain all fod cyflawni eu dyletswydd i sicrhau gwasanaethau bysiau lleol neu fel arall. Ni ellir rhoi trwydded a fyddai'n effeithio'n andwyol ar wasanaethau bysiau lleol dan gontract neu wasanaethau a ddarperir gan Weinidogion Cymru, a rhaid iddi fod yn gyson â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae **adran 12** yn ei gwneud yn ofynnol i drwydded bennu cyfnod y mae'n cael

effaith, ac yn ei gwneud yn glir ei bod yn peidio â chael effaith pan fydd y cyfnod hwnnw'n dod i ben neu pan fydd y drwydded yn cael ei dirymu. Nid yw trwydded sydd wedi'i hatal dros dro yn cael unrhyw effaith yn ystod y cyfnod atal dros dro.

Mae **adran 13** yn darparu i amodau gael eu rhoi ynghlwm wrth drwyddedau. Rhaid i drwyddedau a ddyroddir ar gyfer gwasanaethau bysiau cymunedol gynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu gwasanaethau fel gwasanaethau bysiau cymunedol. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau ynghylch amodau pellach y mae rhaid eu rhoi wrth drwyddedau.

Mae **adran 14** yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau.

Mae **adran 15** yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad i ddeiliad y drwydded i ddirymu'r drwydded neu ei hatal dros dro. Mae'n pennu'r hyn y mae rhaid i'r hysbysiad ei gynnwys, ac yn manylu ar y seiliau y caniateir ei roi arnynt. Caiff rheoliadau newid y seiliau a restrir a gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae hysbysiad yn cymryd effaith.

Mae **adran 16** yn darparu ar gyfer apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn gwrthod trwydded, yr amodau sydd ynghlwm wrthi, dirymiad neu ataliad dros dro. Caiff y Tribiwnlys gadarnhau penderfyniad, diddymu penderfyniad neu roi penderfyniad arall.

## Gwasanaethau bysiau lleol a ddarperir gan Weinidogion Cymru

Mae **adran 17** yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddarparu gwasanaeth bysiau lleol yn uniongyrchol os ydynt wedi'u bodloni y bydd hyn yn fwy effeithiol na chontract. Nid yw hyn yn gymwys i wasanaethau bysiau cymunedol (h.y. ni all Gweinidogion Cymru weithredu gwasanaeth bysiau cymunedol yn uniongyrchol at ddibenion gwasanaeth bysiau lleol).

Nodir yn y Memorandwm y bydd trwyddedu a darparu uniongyrchol yn cael eu defnyddio pan na fo ceisiadau am gontract gwasanaeth bysiau lleol, neu pan fo contract yn methu. Nodir yn y Nodiadau y "bydd Gweinidogion Cymru, yn y lle cyntaf, yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol drwy Trafnidiaeth Cymru".

## Dibynnu ar wasanaethau penodol

Mae **adran 18** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddibynnu ar drafnidiaeth gymunedol a rhai gwasanaethau penodedig eraill heb gontract na thrwydded i

gyflawni eu dyletswydd i sicrhau gwasanaethau bysiau lleol.

Y gwasanaethau dan sylw yw'r canlynol, a ddarperir o dan y ddeddfwriaeth bresennol:

- Gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol a ddarperir o dan **drwyddedau naill ai adran 19 neu 22 (o Ddeddf Trafnidiaeth 1985)**;
- Gwasanaethau teithio gan ddysgwyr sy'n caniatáu i deithwyr sy'n talu (**adran 46(1) o Ddeddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981**); a
- Gwasanaethau o dan **Ran 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981**.

### Gwasanaethau trawsffiniol

Mae **adran 19** yn diffinio "gwasanaeth trawsffiniol" fel llwybr, neu ardal ddaearyddol yn achos gwasanaeth hyblyg, sydd yn y Cynllun ac yn rhannol yn Lloegr.

Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod "gwasanaeth trawsffiniol yn Lloegr" yn cael ei ddarparu pan fo modd diwallu "anghenion trafnidiaeth perthnasol" (h.y. anghenion trafnidiaeth yng Nghymru) heb wneud hynny. Ond ni all Gweinidogion Cymru ystyried gwasanaethau a sicrheir drwy dendr o dan **adran 63 o *Ddeddf Trafnidiaeth 1985*** gan awdurdodau lleol yn Lloegr wrth benderfynu a yw'r anghenion hyn yn cael eu diwallu.

### Gofynion adrodd

Mae **adran 20** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar sut y mae arfer eu swyddogaethau o dan y Bil wedi cyflawni amcanion adran 4. Rhaid iddynt gyhoeddi'r adroddiad, a'i osod gerbron y Senedd, heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob "cyfnod adrodd" (dwy flynedd i ddechrau ar ôl i'r ddyletswydd i sicrhau gwasanaethau ddod i rym, ac yna bob pedair blynedd).

## Rhan 3 - Cyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau bysiau lleol

Mae **adran 21** yn gwahardd unrhyw un rhag darparu gwasanaeth bysiau lleol oni bai o dan gontract, trwydded neu ddarpariaeth uniongyrchol gan Weinidogion Cymru oni bai eu bod yn wasanaethau bysiau cymunedol, neu'n wasanaethau ysgol sy'n cludo teithwyr am dâl. Gall gwasanaethau eraill gael eu hesemptio drwy reoliadau.

Mae **adran 22** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi gwybod i'r

comisiynydd traffig os yw adran 21 yn cael ei thorri.

Mae **adran 23** yn grymuso'r comisiynydd traffig i wneud gorchmynion sy'n gorfodi adran 21. Gall y comisiynydd osod dirwy, neu unrhyw orchymyn arall a ganiateir drwy reoliadau. Gall methu â chydymffurfio arwain at orchymyn pellach hyd at 110% o'r terfyn uchaf. Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion drwy reoliadau. Y terfyn uchaf yw £550, neu swm arall a bennir mewn rheoliadau. Ar gyfer gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, mae'r swm hwn yn cael ei luosi â nifer y cerbydau trwyddedig.

Mae **adran 24** yn darparu ar gyfer hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys a all gadarnhau'r gorchymyn, diddymu'r gorchymyn neu roi gorchymyn arall.

## Rhan 4 – Gwybodaeth a data

### Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion arfer swyddogaethau penodol

Mae **adran 25** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr / cyn-weithredwyr penodol ddarparu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol iddynt wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 neu 3. Rhaid i'r wybodaeth fod o fath a bennir mewn rheoliadau (darperir enghreifftiau), ac ni all fod am gyfnod hwy na phum mlynedd cyn dyddiad yr hysbysiad. Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch apelau, a chânt wneud darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth.

Mae **adran 26** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i awdurdodau lleol neu gynghorau cymuned ddarparu iddynt wybodaeth o fath y gellir ei bennu mewn rheoliadau (darperir enghreifftiau).

### Gwybodaeth i'w rhoi i'r cyhoedd

Mae **adran 27** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu bod gwybodaeth am wasanaethau penodol ar gael i'r cyhoedd. Byddai'r wybodaeth yn cael ei phennu mewn rheoliadau (darperir enghreifftiau) sy'n gorfod nodi sut a phryd y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi.

Mae **adran 28** yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau penodol ddarparu gwybodaeth benodedig iddynt at ddibenion adran 27. Rhaid i unrhyw reoliadau nodi sut a phryd y mae i'w darparu.

### Braint gyfreithiol

Mae **adran 29** yn ei gwneud yn glir nad yw gofyniad o dan adran 25, 26 neu 28 yn gymwys i wybodaeth ar sail braint gyfreithiol.

### Gorfodi

Mae **adran 30** yn caniatáu i'r comisiynydd traffig osod cosb (neu orchymyn arall a ragnodir drwy reoliadau) pan fônt wedi'u bodloni nad yw gweithredwr wedi darparu gwybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 25 neu 28 heb esgus rhesymol. Gall methu â chydymffurfio arwain at orchymyn pellach hyd at 110% o'r terfyn uchaf. Y terfyn uchaf yw £550, neu swm arall a bennir mewn rheoliadau. Ar gyfer gweithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, mae'r swm hwn yn cael ei luosi â nifer y cerbydau trwyddedig.

Mae **adran 31** yn darparu ar gyfer hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys a all gadarnhau'r gorchymyn, diddymu'r gorchymyn neu roi gorchymyn arall.

## Rhan 5 - Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol

Mae **adran 32** yn diwygio **adran 66 o *Ddeddf Trafnidiaeth 1985*** er mwyn eithrio awdurdodau lleol Cymru. Ar hyn o bryd, mae adran 66 yn atal awdurdodau lleol Cymru, gydag eithriadau cyfyngedig, rhag darparu gwasanaethau bysiau sy'n gofyn am drwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus. Yr effaith yw dileu'r cyfyngiad adran 66 mewn perthynas ag awdurdodau lleol Cymru.

Mae **adran 33** yn diwygio **adran 63 o *Ddeddf Trafnidiaeth 1985***, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau'r gwasanaethau cludo teithwyr y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol pan na fyddent fel arall yn cael eu darparu. Mae adran 33 yn golygu na fydd y "gwasanaethau cludo teithwyr" hyn yn cynnwys gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru.

Mae **adran 34** yn grymuso awdurdodau lleol i roi cymorth ariannol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau bysiau lleol. Mae'n anghymhwyso'r darpariaethau yn Neddf Trafnidiaeth 1985 sy'n ymwneud â rheoli cymhorthdal a gofyniad i wahodd tendrau. Mae hefyd yn diwygio adran 63 o'r Ddeddf honno fel na all awdurdodau lleol ddefnyddio'r ddarpariaeth honno i hyrwyddo gwasanaethau bysiau lleol sy'n cael cymhorthdal o dan adran 34.

Mae'r Memorandwm yn ei gwneud yn glir y bydd elfennau ehangach o'r Bil – megis y gofyniad i gael trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus

– yn gymwys. Mae hefyd yn esbonio bod rhaid i awdurdodau lleol sy'n rhedeg gwasanaethau bysiau masnachol sefydlu cwmni, ac y disgwylir y byddant yn dibynnu ar "y pŵer cymhwysedd cyffredinol ("GPOC") a gynhwysir yn **adran 24 o *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*** i wneud hyn".

## Rhan 6 - Darpariaeth amrywiol a chyffredinol

### Trosglwyddo ymgymeriadau

Mae **adran 35** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi lle mae "trosglwyddiad perthnasol" yn dod o fewn ***Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006*** ("TUPE"), o ganlyniad i'r Bil hwn. Rhaid i reoliadau hefyd nodi pryd y mae trosglwyddiad i'w drin fel "trosglwyddiad perthnasol" at ddibenion darpariaethau penodol yn ***Neddf Pensiynau 2004***.

Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch TUPE, gydag enghreifftiau wedi'u darparu.

### Deddf Trafnidiaeth 1985: dileu gofynion sy'n ymwneud â chofrestru

Mae **adran 36** yn diwygio **adran 6 o *Ddeddf Trafnidiaeth 1985***. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau bysiau lleol (fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf honno) gael eu cofrestru gyda'r comisiynydd traffig. Effaith adran 36 yw na fydd hyn yn gymwys i wasanaethau bysiau lleol o dan y Bil hwn. Fodd bynnag, bydd angen cofrestru gwasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau sy'n cludo teithwyr am dâl ar fysiau ysgol nad ydynt yn cael eu darparu o dan gontract neu drwydded o dan adran 6 o Ddeddf 1985, a hefyd bydd angen cofrestru elfen Lloegr o unrhyw wasanaeth bysiau lleol trawsffiniol o dan y Bil (boed yn safonol neu'n hyblyg).

### Pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu

Mae **adran 37** yn diwygio **adran 7 o *Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006*** fel nad yw pŵer Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr yn cael eu darparu yn cynnwys gwasanaethau bysiau lleol o dan y Bil hwn.

## Cyffredinol

Mae **adran 38** yn nodi'r weithdrefn sy'n gymwys i bwerau gwneud rheoliadau o dan y Bil.

Mae **adran 39** yn gwneud darpariaeth ar gyfer hysbysiadau, gan gynnwys sut y maent i'w darparu.

Mae **adran 40** yn darparu diffiniadau o dermau a ddefnyddir drwy'r Bil.

Mae **adran 41** yn darparu mynegai o dermau wedi'u diffinio.

Mae **adran 42** yn cyflwyno pŵer cyffredinol i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn perthynas â'r Bil drwy reoliadau.

Mae **adran 43** yn nodi sut y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

Mae **adran 44** yn nodi enw byr y Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg.